**Pennaeth / Headteacher: Miss N Downes**
**Ffôn / Tel: (01443) 670 319**
**E:-Bost / E:-Mail: admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru**

24/05/2023

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Mae wedi dod i fy sylwi fod rhai rhieni / gofalwyr yn hytrach na defnyddio y brif fynedfa i hebrwng eu plant i / o'r dosbarthiadau, maent yn gollwng eu plant dros ffens y maes parcio ac yna yn neidio dros y ffens eu hunain i'r iard. **Mae ymddygiad o'r fath yn hollol annerbyniol ac yn esiampl hynod o wael i ddangos i blant yr ysgol.** Y brif fynedfa yw'r unig fynedfa i'w defnyddio i hebrwng eich plentyn i'r /o'r ysgol. Yn ogystal â hyn mae rhieni yn gadael i blant redeg o gwmpas y maes parcio heb unrhyw orchwyliaeth. Bu bron i ddamwain gas ddigwydd prynhawn ddoe pan redodd plentyn - a oedd dan ofal rhiant/gofalwr allan o flaen cerbyd.

Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, yn dilyn asesiad risg gan bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Bwrdd Llywodraethol, dynodwyd y maes parcio at ddefnydd staff a bysiau mini yn unig. Mae strydoedd cyfagos ar gael i barcio eich car os nad oes lle ar gael ar Martin Crescent. Yn yr un modd dylid sicrhau fod digon o le i fysiau barcio yn y safle swyddogol i fysiau o flaen yr ysgol.

Rwyf yn mawr obeithio y bydd **POB** rhiant / gofalwr yn cymeryd cynnwys y llythyr hwn o ddifrif ac yn ystyried yn ddwys canlyniadau parcio anghyfrifol. Dwyf i ddim eisiau i unrhyw blentyn o YGG Tonyrefail gael anaf oherwydd amharodrwydd ambell riant / ofalwr i ddilyn rheolau parcio yr ysgol.

Diolch yn fawr

N.Downes